# Gofal Iechyd I'n Myfyrwyr Traws

Pasiwyd gan:  Y Senedd

Pasiwyd ar: 04/11/2019

Yn darfod ar:  **04/11/2022**

Swyddog sy'n gyfrifol: Swyddog Llesiant

## Crynodeb

Mae cyrchu gofal iechyd priodol fel myfyriwr traws yn frawychus, yn anodd ac yn hollol ddryslyd; gallwn wneud mwy i helpu.

## Manylion

Mae myfyrwyr Trawsryweddol yn wynebu llawer o anawsterau yn ystod eu profiad prifysgol. Mae cyrchu gofal iechyd sy'n gysylltiedig â'u trawsnewid, a'r llwybr i'w ddilyn, yn gymhleth ac yn ddryslyd i'w lywio. Mae hyn yn cael ei ddwysáu gan y ffaith bod gwahanol wasanaethau meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol â barn wahanol ar y ffordd gywir i brosesu'r myfyrwyr hyn.
Hoffwn i UMAber wynebu rhai o'r anawsterau hyn drwy fynd at yr adran Cymorth i Fyfyrwyr, y Brifysgol a gwasanaethau meddygon teulu lleol i'w haddysgu ar y ffyrdd cywir o drin achosion o'r fath ac i symleiddio'r broses o gyrchu gofal iechyd yn effeithiol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys ffyrdd priodol o drin agweddau eraill ar fywyd myfyrwyr Traws sy'n ymwneud â'u llesiant cyffredinol (megis gwasanaethau newid enwau a newid rhywedd, a chael mynediad at ofal iechyd preifat os dymunir)

Submitted By: Lyra J Hawkins

## Rhestr Weithredu

| Camau a gymerwyd | Enw a Rôl | Dyddiad |
|---|---|---|
| Codwyd y Polisi gan y Swyddog Llesiant yn y gweithgor Gweithredu Polisi Traws tua dechrau 2020. Cytunwyd y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda chysylltydd priodol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i fynd â'r materion ymhellach.<br><br>Nodwyd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn y broses o benodi prif gysylltydd ar gyfer gofal iechyd i bobl draws yng Ngogledd Ceredigion, a ddylai fod o gymorth gyda materion o'r fath. Tra bod sgyrsiau wedi dechrau i egluro unrhyw gynnydd pellach, mae'r rhain wedi cael eu gohirio am y tro mewn ymateb i COVID-19<br><br>Mae Lyra, ein Swyddog LHDTC+ wedi gweithio gyda Swyddogion eraill yng Nghymru i gyflwyno polisi tebyg i Gynhadledd UCM Cymru eleni, fel | | |

| | | |
|---|---|---|
| y gellir mynd i'r afael â materion gofal iechyd traws ar lefel genedlaethol. | | |